



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

AMSER I FFWRDD AR GYFER DIBYNYDDION/ARGYFWNG

Arolwg	Dyddiad	Pwrpas y Cyhoeddiad / Disgrifiad o'r Newid		Dyddiad yr Arolwg
1.	2006			2007
2.	2007			2008
3.	2014	Newidiadau cosmetig		2015
4.	2015	Diweddariad am eglurder		2016
5.	2016	Newidiadau cosmetig		2017
6.	2018	Adolygiad - dim newidiadau		2020
7.	2021	Adolygiad - dim newidiadau		2023
Swyddog Polisi		Uwch Swyddog â Chyfrifoldeb	Cymeradwywyd gan a Dyddiad	Asesiad o ran Effaith ar Gydraddoldeb, a dyddiad
Jade Luke		Steffan Griffiths	HRTG 10/02/2003	

Tabl Cynnwys

1	HAWLIO AMSER I FFWRDD O'R GWAITH MEWN ARGYFWNG.....	3
2	HAWL	3
3	DIFFINIAD O 'DDIBYNNYDD'	4
4	CYFNOD AMSER I FFWRDD	4
5	HYSBYSU	4
6	ADOLYGU POLISI.....	5

1 HAWLIO AMSER I FFWRDD O'R GWAITH MEWN ARGYFWNG

Mae'r hawl hwn yn caniatáu i chi gymryd cyfnod rhesymol i ffwrdd o'r gwaith yn ddidâl i ddelio ag unrhyw argyfyngau annisgwyl yn ymwneud â rhywun sy'n dibynnu arnoch ac i wneud unrhyw drefniadau tymor hirach sydd eu hangen.

Os ydych yn gwybod ymlaen llaw y bydd angen amser i ffwrdd arnoch chi, dylech ofyn am wyliau blynyddol yn y ffordd arferol. Neu os oes angen i chi fod yn absennol am reswm sy'n ymwneud â'ch plentyn, mae'n bosib y bydd hawl gennych i gael Absenoldeb Rhiant.

2 HAWL

Mae'r hawl yn eich galluogi i ddelio â phroblem annisgwyl neu sydyn megis:

- os yw dibynnydd yn mynd yn sâl neu os yw wedi cael ei anafu neu wedi dioddef ymosodiad.
- os yw partner yn cael baban
- er mwyn gwneud trefniadau tymor hirach ar gyfer dibynnydd sy'n sâl neu wedi ei anafu
- i ddelio â marwolaeth dibynnydd
- Os bydd trefniadau gofal ar gyfer dibynnydd yn methu; er enghraifft, os yw'r gwarchodwr neu'r nyrs yn peidio â dod.
- er mwyn delio â digwyddiad annisgwyl yn ymwneud â'ch plentyn yn ystod oriau ysgol; er enghraifft os yw'ch plentyn wedi bod mewn cwffas neu mewn damwain neu ddigwyddiad yn yr ysgol.

Nid oes raid i'r salwch neu'r anaf fod yn ddifrifol neu'n peryglu bywyd, a byddai'n cynnwys salwch meddyliol neu/A chorfforol.

Mewn achosion lle mae dibynnydd wedi dioddef ymosodiad ond heb ei anafu, mae gennych hawl i gael amser i ffwrdd os yw'r dibynnydd yn ofidus.

Nid yw'r absenoldeb ar gyfer delio ag argyfyngau yn y cartref megis y peiriant golchi'n torri i lawr neu anifail anwes angen mynd at y milfeddyg. Mater i'w gytuno rhyngoch a'ch Pennaeth Ysgol/Adran yw hwnnw.

Bydd unrhyw gamddefnydd o'r hawl i gael amser i ffwrdd yn cael ei drin yn unol â threfniadau disgyblu arferol y Brifysgol. Bydd cofnodion am wrandawiadau ac ymchwiliadau disgyblu a'r canlyniadau'n cael eu cadw'n ddiogel a'u clymu wrth eich ffeil bersonol.

Mae'n bosib y bydd amseroedd pan fyddech chi'ch dau fel rhieni'n hoffi cymryd amser oddi ar y gwaith o dan yr hawl hwn, a gall fod yn rhesymol, neu hyd yn oed yn angenrheidiol, i chi wneud hyn. Defnyddir synnwyr cyffredin yn dibynnu ar amgylchiadau'r sefyllfa. Mae'n bosib y bydd angen i'r ddau riant gymryd amser i ffwrdd os yw eich plentyn wedi cael damwain ddifrifol ond mae'n annhebygol y bydd angen i'r ddau riant fod yn absennol o'r gwaith os yw'r gwarchodwr yn methu â dod.

Os ydych yn meddwl bod eich cais am amser i ffwrdd wedi cael ei wrthod ar sail afresymol, neu os ydych wedi dioddef anfantais o'i gymryd, gellwch gwyno o dan drefn gwyno'r Brifysgol.

3 DIFFINIAD O 'DDIBYNNYDD'

Ystyr dibynnydd yw eich gwr, gwraig neu bartner, plentyn neu riant. Mae hefyd yn cynnwys rhywun sy'n byw yn yr un ty ag aelod o'ch teulu. Er enghraifft, gallai hyn fod yn fodryb oedrannus neu'n daid neu nain sy'n byw yn y cartref.

Nid yw'n cynnwys tenantiaid neu letywyr sy'n byw yng nghartref y teulu, neu rywun sy'n byw yn y ty fel gweithiwr, megis howscipar sy'n byw i mewn.

Mewn achosion lle mae salwch, anaf neu lle mae trefniadau gofal yn torri i lawr, gall dibynnydd fod yn rhywun sy'n dibynnu'n rhesymol arnoch am gymorth. Gall hyn fod lle rydych yn brif ofalwr neu'r unig berson sy'n gallu helpu mewn argyfwng; er enghraifft, cymydog oedrannus sy'n byw ar ei ben ei hun sy'n disgyn ac yn torri coes.

4 CYFNOD AMSER I FFWRDD

Bydd hyn yn amrywio yn ôl amgylchiadau gwahanol argyfyngau. Gan amlaf, dylai un neu ddau ddiwrnod fod yn ddigon i ddelio â'r broblem. Os cymerir rhan o'r diwrnod yn unig, cyfrifir yr absenoldeb fel hanner diwrnod yn dibynnu a gymerwyd yr amser i ffwrdd yn y bore neu'r prynhawn.

Bwriad yr hawl hwn yw delio ag argyfyngau gwirioneddol. Nid oes terfyn ar faint o weithiau y gellwch fod yn absennol o'r gwaith.

5 HYSBYSU

Rhaid i chi roi gwybod i'ch goruchwyliwr/rheolwr llinell/Pennaeth Ysgol neu Adran cyn gynted ag y bo'n ymarferol, am y rheswm dros eich absenoldeb a pha mor hir yr ydych yn disgwyl bod i ffwrdd o'r gwaith. Gall fod amgylchiadau eithriadol lle rydych yn dychwelyd i'r gwaith cyn gallu cysylltu â neb yn y Brifysgol, ond dylech hysbysu'ch goruchwyliwr /rheolwr llinell/ Pennaeth Ysgol neu Adran o'r rheswm dros yr

absenoldeb pan fyddwch yn dychwelyd i'r gwaith. Nid oes raid rhoi rhybudd ysgrifenedig ond rhaid i chi lenwi'r ffurflen gysylltiedig berthnasol pan fyddwch yn dychwelyd i'r gwaith.

6 ADOLYGU POLISI

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau o dro i dro i wneud yn siŵr ei fod yn dal i fod yn addas at anghenion y sefydliad ac yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.